

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog ac Ysgol Cynddelw yn rhan o ffederasiwn Dyffryn Ceiriog. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan ddirprwy bennaeth ar safle Ysgol Cynddelw a phennaeth safle yn Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog.

Gyda chefnogaeth frwd y staff, mae'r pennaeth wedi creu gweledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei selio ar sicrhau bod lles disgyblion a datblygu eu medrau Cymraeg yn flaenllaw yng ngwaith a bywyd ysgolion y ffederasiwn. Mae gan arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, ddealltwriaeth briodol o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Maent yn cynnwys staff yn y broses hunan wella yn effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o safon y ddarpariaeth a'r cynnydd ym medrau'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso bob tro yn galluogi arweinwyr i adnabod y meysydd i'w gwella a'r camau sydd eu hangen i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae arweinwyr yn hynod weithgar wrth sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth i'r disgyblion. Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau, yn enwedig eu medrau llafar Cymraeg a digidol. Er hyn, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig na rhifedd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda. Maent yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r ystod o brofiadau ysgogol a difyr sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd o fewn yr ardaloedd dysgu ac yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, gan rannu eu syniadau mewn modd aeddfed a synhwyrol. Pan gaiff y disgyblion y cyfle, mae rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol wrth ymateb i heriau yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleodd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn adnabod meysydd i'w gwella yn amserol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau**

**A2** **Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu wrth eu cymhwyso mewn gweithgareddau dysgu annibynnol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 18 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 11 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 81.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/09/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/07/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.